# Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru – Cofnodion
# Dydd Llun, 29 Ionawr 2024 10:40-11:40 MS Teams

**Presennol**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Julie James MS, y Gweinidog Newid Hinsawdd
Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

**Llywodraeth Leol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Andrew Morgan, Rhondda Cynon Taf | Y Cynghorydd Anthony Hunt, Torfaen |
| Y Cynghorydd Mark Pritchard, Wrecsam | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Gwynedd |
| Y Cynghorydd Rob Stewart, Abertawe | Y Cynghorydd Ian Roberts, Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd Llinos Medi, Ynys Môn | Y Cynghorydd Paul Griffiths, Sir Fynwy |

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau CLlLC
Nigel Aurelius – CBS Torfaen (Prif Swyddog Cyllid), Ysgrifennydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid, CLlLC
Lisa Haywood – Swyddog Polisi Cyllid, CLlLC

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Emma Smith – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Lisa James – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Llywodraeth Leol

**Cynghorwyr arbennig Llywodraeth Cymru**

**Cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid – 29 Ionawr 2024 – Cofnodion**

Philippa Marsden
Sara Faye
Clare Jenkins
Ian Butler
David Hooson
Andrew Pithouse

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gweinidogion / yn arsylwi**

Catrin Awoyemi – Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Kate Bacon – Ysgrifennydd Preifat
Helen Childs – Ysgrifennydd Preifat
Sara Cochrane – Canolfan Ragoriaeth Grantiau
Lyndon Evans – Ysgrifennydd Preifat
Mohammad Ghalati – Polisi Llywodraeth Leol
Emyr Harries – Busnes a Llywodraethiant Addysg
Keiran Harris – Ysgrifennydd Preifat
Lisa Hughes - Polisi Llywodraeth Leol
Paula James – Polisi Llywodraeth Leol
Anthony Jordan – Cynhwysiant a Busnes Corfforaethol (gwasanaethau cymdeithasol)
Lowri Llewellyn – Ysgrifennydd Preifat
Steven McGregor – Gogledd Cymru
Andrea Melvin - Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Geraldine O'Dare – Canolfan Ragoriaeth Grantiau
Sarah Rhodes – Polisi Tai
Nikita Roach - Gwasanaethau Cyfreithiol
Andrew Wagstaff - Ysgrifennydd Preifat
Emma Watkins – Trysorlys Cymru

**Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jane Mudd, Casnewydd
Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi
Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

**Eitem 1:Croeso a Chyflwyniadau**

1. Diolchodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod ychwanegol hwn o'r Is-Grŵp Cyllid. Byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar adolygu'r gwaith a gwblhawyd o ran lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.

2. Estynnodd y Gweinidog groeso i'w gyd-Weinidogion i'r cyfarfod.

**Eitem 2: Adolygiad o newidiadau arfaethedig i grantiau llywodraeth leol**

3. Nododd y Gweinidog bod saib yn y gwaith i ganiatáu i drafodaethau cyllideb drafft y Cabinet gael eu cynnal dros yr Hydref. Roedd hyn yn cefnogi'r ymrwymiad i dryloywder fel y gellid gweld unrhyw newidiadau i werth grantiau yn glir fel rhan o'r gyllideb ddrafft a'r setliad llywodraeth leol drafft.

4. Eglurodd y Gweinidog fod tri phrif opsiwn wedi bod o ran grantiau, sef trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, cyfuno grantiau neu gynnal y status quo. Mae grantiau ar wahanol gamau o'u hesblygiad a bydd gwahanol atebion yn gweithio ar gyfer gwahanol feysydd. Ni ddylai unrhyw newidiadau gynyddu'r baich gweinyddol, boed hynny i Lywodraeth Cymru neu o fewn llywodraeth leol yn eu prosesau monitro ariannol a pherfformiad.

5. Nododd y Gweinidog ei bwriad i drafod y grantiau mewn tair adran, rhai sy'n debygol o symud i'r grant cynnal refeniw yn 2024-25 neu 2025-26; y rhai sy'n cyfuno; a'r rhai sy'n aros fel y maent.

6. Dechreuodd y Gweinidog gyda'i phortffolio ei hun. Nid yw'r grant claddu plant yn swyddogaeth statudol ond ymrwymiad y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Maent yn gweithio ar y manylion terfynol o ran sut y gallai unrhyw gytundeb weithio.

7. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Grant Gweithredu Fframwaith Perfformiad, sydd â blwyddyn ar ôl ac sy'n cael ei dalu i bob awdurdod lleol, i fod i gael ei dalu drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn 2024-25.

8. Nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd y bwriad i drosglwyddo darpariaeth grant atal llifogydd i'r setliad. Yna disgrifiodd waith sy’n digwydd gydag awdurdodau lleol ar amrywiaeth o grantiau tai. Sefydlwyd grantiau Neb Heb Help, Darpariaeth Digartrefedd yn ôl Disgresiwn a Chydlynwyr Strategol ar ôl y Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol, i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r costau oedd yn gysylltiedig â Covid. Caewyd y grantiau ym mis Mawrth 2022. Mae'r grantiau'n darparu cymorth trosiannol i Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol i gynnal y 'dull neb heb help’ ac atal digartrefedd.

9. Cytunodd y Cynghorydd Mark Pritchard gyda'r trosglwyddiadau, ond gofynnodd am gadarnhad o lefel y cyllid ar gyfer grantiau tai cyn gynted â phosibl.

10. Cytunwyd ar y trosglwyddiadau.

11. Cyflwynodd y Gweinidog gam nesaf yr adolygiad, sef uno grantiau.

12. Disgrifiodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol amrywiaeth o grantiau ag amcanion tebyg y bwriedir eu cyfuno â'i gilydd neu gyda'r Grant Plant

a Chymunedau. Teimlwyd bod angen ffrwd ariannu benodol o hyd ar y polisïau cysylltiedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

13. Disgrifiodd y Gweinidog Addysg y gwaith a oedd wedi bod yn digwydd ers nifer o flynyddoedd ac a gyflymodd yn ddiweddar i gyfuno grantiau i'r sector addysg, i leihau'r baich gweinyddol a chynyddu hyblygrwydd ar lefel leol. Bydd grantiau i gyd yn cael eu cyfeirio at awdurdodau lleol ac ysgolion a'u symleiddio. Ochr yn ochr a hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i ailgynllunio'r haen ganol a gwella'r ysgol ac mae angen cynnal sefydlogrwydd yn y gwasanaethau hyn tra bo'r newidiadau'n digwydd.
14. Nododd y Cynghorydd Mark Pritchard ei fod yn cytuno â'r dull o ymdrin â'r ddau faes hyn. Roedd yn teimlo y gallai'r newid i weithio rhanbarthol achosi rhywfaint o broblem gan fod trefniadau gwahanol ar hyn o bryd mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru ond cytunodd â'r egwyddorion a chefnogodd y dull ar y cyd.
15. Cytunodd y Cynghorydd Ian Roberts bod angen rheoli'r dull o wella ysgolion yn ofalus fel na fyddem yn mynd yn ôl i chwe gwasanaeth gwahanol yng Ngogledd Cymru, er enghraifft.
16. Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, a phwysleisiodd y gwaith sy'n digwydd ar gyd-gynllunio'r dull gweithredu yn y dyfodol.
17. Cododd Jon Rae yr arbenigedd sydd ar gael yn yr Is-Grŵp Dosbarthu wrth ystyried methodoleg dosbarthu grantiau cyfunol, fel bod triniaeth gyson â'r dull yn y grant cynnal refeniw lle bo hynny'n briodol.

    **Cam Gweithredu – unrhyw ddosbarthiad grant i'w archwilio ymhellach gyda'r Is-Grŵp Dosbarthu yn ôl yr angen.**

18. Cyflwynodd y Gweinidog drydydd cam yr adolygiad, grantiau a oedd yn aros fel yr oeddynt. Nododd fod llawer o'r rhain yn grantiau a roddwyd i un awdurdod yn unig, er enghraifft Awdurdod Harbwr Caerdydd, neu grantiau sydd wedi'u rhoi ar sail ranbarthol. Gan nad oedd Gweinidog yr Economi yn gallu bod yn bresennol, nododd y gweinidog y dull gweithredu o ran y cynllun Cymunedau am Waith a Mwy sy'n rhan o adolygiad ehangach o raglenni cyflogadwyedd sy'n parhau, felly nid oedd yn briodol newid y grant ar hyn o bryd.
19. Gwahoddodd y Gweinidog Weinidogion eraill i wneud sylwadau ar unrhyw feysydd yr hoffent eu dwyn i sylw'r grŵp.
20. Nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd y grant cymorth tai - mae'r fformiwla ddosbarthu ar gyfer y grant hwn yn cael ei hadolygu, ond nid oes cynlluniau i'w rhoi yn y Grant Cynnal Refeniw yn dilyn trafodaeth gydag awdurdodau lleol.
21. Nododd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod rhai grantiau yn ddibynnol ar y galw amdanynt, ac felly wedi cael eu cadw ar wahân.

22. Nododd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fod rhai grantiau yn ei maes portffolio yn cael eu talu yn rhanbarthol ar yr un ôl troed â'r Byrddau Iechyd gan eu bod yn rhaglenni ar y cyd. Roedd nifer y taliadau grant wedi'u lleihau ac roedd y telerau yn cael eu hadolygu gyda'r amcan o'u gwneud yn symlach. Roedd grantiau eraill yn aros i newidiadau mewn deddfwriaeth gael eu cyflwyno felly nid oedd yn briodol newid ar hyn o bryd ond byddent yn cael eu hadolygu yn y dyfodol.

23. Adleisiodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol sefyllfa debyg gyda grantiau oedd yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

24. Nododd y Cynghorydd Paul Griffiths bod llawer o'r grantiau sy'n effeithio ar lwyth gwaith yn rhai sy'n seiliedig ar geisiadau, gan greu aneffeithlonrwydd mewn llywodraeth leol wrth gwblhau'r cais a Llywodraeth Cymru wrth asesu'r ffurflen.

25. Cytunodd y Cynghorydd Andrew Morgan nad oedd yn ymddangos bod unrhyw gydberthynas â maint neu gymhlethdod y pot cyllido a'r lefel o wybodaeth a monitro sydd eu hangen.

26. Eglurodd y Gweinidog mai dim ond edrych ar grantiau refeniw a wneir yn y lle cyntaf, ond gellid edrych ar grantiau cyfalaf yn y dyfodol.

27. Atgoffodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip y grŵp o god ariannu'r trydydd sector a'r sgil-effaith ar y sector hwnnw, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion lleol a rhanbarthol.

28. Cododd y Gweinidog Newid Hinsawdd ambell grant sy'n parhau i gael eu hadolygu mewn meysydd - er enghraifft grantiau gwastraff, lle gellid defnyddio dull gwahanol, lle trosglwyddwyd grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw lle'r oedd targedau'n cael eu cyrraedd a'u cadw ar wahân os nad oeddynt yn cael eu cyrraedd. Ar gyfer atal llifogydd cynlluniwyd symud i ddull cydgynhyrchu, yn hytrach na chymhwyso, adolygu, adborth, dull ailgyflwyno er mwyn symleiddio ceisiadau.

### Eitem 3: Unrhyw fater arall

29. Diolchodd y Gweinidog i'r grŵp am eu hamser a'u mewnbwn a nododd y byddai diweddariadau pellach yn cael eu rhoi fel rhan o gylch cyfarfodydd arferol yr Is-grŵp Cyllid yn ôl yr angen.

30. Gofynnodd y gweinidog os oedd unrhyw fater arall, ond ni chodwyd unrhyw beth.